

Crynodeb Gwirio Ansawdd Practis Deintyddol Achddu Villa Dyddiad y gweithgarwch: 07 Rhagfyr 2021

Dyddiad cyhoeddi: 21 Ionawr 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Achddu Villa fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis deintyddol hwn yn cynnig triniaethau a gwasanaethau'r GIG a thriniaethau a gwasanaethau preifat i gleifion yn ardal Llanelli.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn giplun o'r safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r rhain yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl oddi ar y safle ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (ynghylch staffio yn benodol) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio'r trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, a'n galluogi i ddarparu cyngor cyflym a chefnogol ar welliannau er mwyn gweithredu gwasanaethau yn ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r prif ddeintydd ar 07/12/2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r dulliau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut yr ymatebodd y gwasanaeth i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Asesiad risg iechyd a diogelwch amgylcheddol
- Asesiad risg COVID-19.

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom adolygu'r dogfennau allweddol a restrir uchod a chadarnhau eu bod oll wedi'u cwblhau i safon ddigonol a'u dyddio.

Dywedodd y prif ddeintydd wrthym am y newidiadau a wnaed i'r practis er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn y manau cymunol a'r ystafelloedd triniaeth. Ar hyn o bryd, mae'r practis yn cadw'r drws ffrynt dan glo er mwyn atal unrhyw un sydd heb apwyntiad rhag mynd i mewn i'r practis. Maent hefyd yn cynnal apwyntiadau hwy er mwyn caniatáu amser ychwanegol i lanhau ac i leihau traffig yn yr ystafell aros. Mae gofod digonol hefyd rhwng y cadeiriau yn yr ystafell aros ac mae'r practis wedi gweithredu system un ffordd ar gyfer mynd i mewn a gadael y practis.

Cawsom wybod bod yr holl eitemau diangen wedi'u symud o'r ystafell aros a bod gorsafoddedd gweithio'n cael eu cadw mor glir â phosibl ar gyfer glanhau rheolaidd. Mae ffenestri yn y deintyddfeydd yn cael eu gadael ar agor drwy'r amser ac mae cadeiriau ffabrig wedi'u disodli â chadeiriau finyl ag arwyneb y gellir ei sychu'n lân a fyddai'n cael ei lanhau ar ôl eu defnyddio.

24 awr cyn apwyntiad, byddai staff y dderbynfa'n ffonio cleifion, cwblhau rhestr wirio COVID-19 ac yn esbonio ar lafar yr hyn i'w ddisgwyl wrth gyrraedd y practis i'w hapwyntiad. Gellir gweld gwybodaeth safonol am COVID-19 ar wefan y practis.

Dywedwyd wrthym fod dau aelod o staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac maent yn gwisgo'r bathodynau perthnasol i nodi eu hunain i gleifion. Mae'r holl bosteri gwybodaeth sy'n cael eu harddangos yn y practis yn ddwyieithog ac mae gan y practis fynediad at wasanaeth cyfieithu hefyd.

Mae pob deintyddfa'n cynnwys cyfarpar ar gyfer cynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau.¹ Cawsom ein hysbysu bod systemau hidlo aer wed'ui gosod ynddynt a bod y ffenestr yn cael ei gadael ar agor pryd bynnag y bo'n bosibl wrth gynnal gweithdrefnau. Mae'r staff yn ceisio dyrannu'r holl weithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol i un ddeintyddfa benodol bob dydd. Mae'r staff nyrsio'n glanhau bôn deintyddfa rhwng cleifion ac mae pob aelod o staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol gofynnol cyn mynd i mewn i'r deintyddfeydd.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel. |

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Copi o archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Amserlenni glanhau'r ddeintyddfa
- Polisi glanhau
- Gwiriadau dyddiol o'r awtoclaf
- Copi o gofnodion uwchsonig

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Mae amserlenni a chofnodion glanhau'r practis ar gyfer dihalogi offerynnau ac offer y ddeintyddfa, ynghyd â chopïau o gofnodion uwchsonig a gwiriadau dyddiol o'r awtoclaf a ddarparwyd yn drwyadl ac wedi'u cwblhau.

Dyweddodd rheolwr y practis wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau. Mae'r holl staff wedi gwyllo fideos hyfforddiant cyfarpar diogelu personol i sicrhau cymhwysedd wrth wisgo a diosg². Caiff unrhyw newidiadau i bolisiau atal a rheoli heintiau eu cyfathrebu yn ystod cyfarfodydd staff, gyda chopïau ffisegol o bolisiau a gweithdrefnau yn cael eu hargraffu ar gyfer staff i'w llofnodi a'u dyddio ar ôl eu darllen.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi'i chael yn anodd cyrchu stoc o gyfarpar diogelu personol ar ddechrau'r pandemig, gan bwysleisio diffyg masgiau'n benodol. Fodd bynnag, dechreuodd y bwrdd iechyd lleol ddarparu stoc yn fwy aml a chafodd rheolwr y practis fynediad i stoc ychwanegol hefyd. Cynhaliwyd gwiriadau stoc o gyfarpar diogelu personol bob wythnos er

¹ Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr aer (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnyddiau

² Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

mwyn nodi stoc sydd angen ei archebu.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Wrth adolygu'r polisi glanhau, canfuom nad oedd unrhyw ddyddiad creu neu ddyddiad adolygu wedi'u cynnwys. Rydym yn argymhell bod rheolwr y practis yn sicrhau bod yr holl bolisiau'n cael eu dyddio, a rheoli fersiynau.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, fe holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Adroddiad Rheoliad 16
- Polisi cydsynio
- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Archwiliad cardiau cofnodi
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf
- Copi o'r daflen wybodaeth i gleifion ddiweddaraf

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym y cyflwynir unrhyw ganllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i staff trwy reolwr y practis yn ystod cyfarfodydd y tîm a thrwy e-bost.

Eglurwyd y broses o wirio offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys. Mae'r derbynnydd yn cwblhau gwiriadau dyddiol i sicrhau bod y diffibriliwr wedi'i wefru. Cawsom hefyd wybod bod y derbynnydd yn ymgymryd â gwiriadau bob wythnos ar y cyffuriau ac ocsigen a ddefnyddir mewn achos brys yn y bagiau offer brys.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben³ a'r daflen gwybodaeth i gleifion⁴, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Pan wnaethom ofyn am y broses o adrodd am ddigwyddiadau i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

³ Ystyr "datganiad o ddiben" ("statement of purpose") yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â Rheoliad 5(1) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac Atodlen.

⁴ Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 y rheoliadau uchod.

(AGIC), nid oedd y prif ddeintydd yn glir o'r broses a amlinellir yn Rheoliad 25 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rydym yn argymhell bod yr holl staff yn adolygu'r rheoliadau hyn i sicrhau eu bod yn deall y broses adrodd yn glir.

Wrth adolygu'r dystiolaeth sydd wedi'i dogfennu ar gyfer yr adran hon, gwnaethom sylwi nad oedd y polisi COVID-19 na'r polisi cydsynio'n cynnwys y dyddiad cyhoeddi neu'r dyddiad adolygu sydd wedi'i amserlennu. Rydym yn argymhell bod rheolwr y practis yn cynnwys y dyddiadau perthnasol ac yn rheoli fersiynau yn yr holl bolisiâu.

Ni chawsom gofnodion hyfforddiant cyflawn ar gyfer pob aelod o staff y practis. Yn ogystal, gwnaethom nodi nad yw staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol gofynnol, gan gynnwys diogelwch tân, atal a rheoli heintiau, diogelu a chynnal bywyd sylfaenol. Rydym yn argymhell bod y practis yn anfon cofnodion hyfforddiant cyflawn a chyfredol at AGIC ar gyfer pob aelod o staff. Mae'n rhaid i'r practis hefyd sicrhau bod y staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol gofynnol a rhoi gwybod i AGIC ar ôl i hwn gael ei gwblhau.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Pan fydd angen cynllun gwella, dylai:

- Sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.
- Cynnwys manylion digonol i ddarparu sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd a nodwyd i'w gwella yn derbyn sylw digonol.
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael eu darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad yn gyffredinol.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Deintyddol Achddu Villa

Dyddiad y gweithgarwch: 07/12/2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys y gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle'r oedd yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn esbonio'r camau gweithredu y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd ac mae angen cyflwyno'r fersiwn terfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Dylai rheolwr y practis sicrhau bod y polisi glanhau, y polisi COVID-19 a'r polisi cydsynio wedi'u dyddio'n glir, a rheoli fersiynau.	Rheoliad 8 (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017)	Dyddiad i'w ychwanegu at y ffurflen	Rheolwr y practis	07/02/2022
2	Dylai pob aelod o staff sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau ynghylch adrodd am ddigwyddiadau i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)	Rheoliad 25 (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017)	Dylai pob aelod o staff adolygu'r weithredn adrodd am ddigwyddiadau.	Rheolwr y practis	07/02/2022
3	Ni chawsom gofnodion hyfforddiant cyflawn ar gyfer pob aelod o staff y practis. Yn ogystal, gwnaethom nodi nad yw staff wedi cwblhau'r holl	Rheoliad 17 (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017)	Dylai pob aelod o staff ddiweddarau eu cofnodion hyfforddiant	Rheolwr y practis	07/02/2022

<p>hyfforddiant gorfodol gofynnol, gan gynnwys diogelwch tân, atal a rheoli heintiau, diogelu a chynnal bywyd sylfaenol. Rydym yn argymhell bod y practis yn anfon cofnodion hyfforddiant cyflawn a chyfredol at AGIC ar gyfer pob aelod o staff. Mae'n rhaid i'r practis hefyd sicrhau bod y staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol gofynnol a rhoi gwybod i AGIC ar ôl i hwn gael ei gwblhau.</p>				
--	--	--	--	--